Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Casblaidd
Glancleddau
Casblaidd
Hwlffwrdd
Sir Benfro
SA62 5LZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Casblaidd ym mhentref gwledig Casblaidd. Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r ardal ei hun a’r ardal ehangach. Fe’i cynhelir gan awdurdod lleol Penfro. Ar hyn o bryd, mae 39 disgybl ar gofrestr yr ysgol, sy’n cynnwys pedwar disgybl oed meithrin rhan amser. Mae’r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau dosbarth cymysg eu hoedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 9% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy’n sylweddol is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 47% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a thrwy’r Gymraeg a’r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, gyda’r nod o’u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Mae tua 21% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2010. Mae’r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2014 yn dilyn cyfnod o chwech mlynedd fel pennaeth dros dro.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Casblaidd 2015-2016 yw £5,389. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,208 a'r lleiafswm yw £3,454. Mae Ysgol Gymunedol Casblaidd yn y pumed safle o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- cyfraddau presenoldeb y disgyblion yn rhagorol ac wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- llais disgyblion yn cael blaenoriaeth uchel yng ngwaith yr ysgol
- safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn gadarn dda
- pwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol sy'n ennyn awydd y disgyblion i ddysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth clir a phwrpasol ar gyfer gwelliant
- llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth am ddata perfformiad yr ysgol yn effeithiol i herio'r ysgol
- gan yr ysgol ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu effeithiol
- arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn addas
- gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda rhieni a'r gymuned
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod medrau rhifedd a TGCh yn cael eu cynllunio'n fwriadus ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

A4 Mireinio adroddiadau monitro, gan weithredu'n fwy effeithiol ar ganfyddiadau sy'n deillio ohonynt er mwyn mynd i'r afael â gwelliannau'n gyflym

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau llythrennedd a rhifedd mwyafrif y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn yn unol â'u targedau. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgartrefu'n gyflym ac yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr hyderus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n frwdfrydig am eu gwaith, gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus, gan ddefnyddio geirfa briodol yn y Gymraeg. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn trafod a chyflwyno chwedl 'Y bachgen a'r blaidd' mewn dull cyfoes.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn rhugl ac yn defnyddio eu gwaith ffonolegol yn llwyddiannus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae ymwybyddiaeth llawer o ddisgyblion am nodweddion llyfrau yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd gydag ystyr a mynegiant ac mae eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen yn gadarn. Fodd bynnag, mae medrau darllen ychydig o ddisgyblion yn gryfach yn y Saesneg nag yn y Gymraeg. Mae uwch fedrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn defnyddio testun yn briodol er mwyn darganfod gwybodaeth berthnasol am bwnc penodol, er enghraifft wrth ymchwilio i waith y bardd Waldo Williams.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu esboniad am gylch bywyd broga. Mae medrau sillafu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion mwy abl yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa i greu effaith yn eu hysgrifennu. Maent yn ysgrifennu brawddegau estynedig trwy ddefnyddio amrywiaeth o gysylltieiriau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig cyfyngedig ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr perswâd yn gwahodd artist i ddylunio'r capel lleol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu estynedig mwyafrif y disgyblion wedi datblygu'n llawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol unedau mesur ac amser. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o ffracsiynau siapiau. Maent yn cyfri,

mesur a thrin data ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, gan fynd i'r afael â thasgau diddorol. Mae enghreifftiau penodol yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys llunio graffiau ar daldra aelodau o'r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac mewn llyfrau yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gywir wrth gynllunio a chyfrifo cost gweithgaredd 'glampio'. Maent yn defnyddio strategaethau addas i ddod o hyd i berimedr siapiau 2D, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cyfrifo arwynebedd siapiau afreolaidd yn gywir. Mewn gwyddoniaeth, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol. Enghraifft o hyn yw'r data a gofnodir ar effaith ymarfer corfforol ar guriad y galon. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn pynciau eraill.

Dros y blynyddoedd, mae nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn gyffredinol wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol, tra bod y patrwm mewn llythrennedd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf am y tair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Dros gyfnos o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg.

Gan fod niferoedd mor fach, nid yw'n bosibl cymharu perfformiad bechgyn a merched na pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim a'r lleill.

## Lles: Rhagorol

Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'r hyn sydd ei angen i gadw'n heini. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynychu'r clwb chwaraeon ar ôl ysgol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at eu ffitrwydd. Mae ymddygiad y disgyblion o gwmpas yr ysgol yn gadarn dda. Maent yn gwrtais tuag at oedolion a chyfoedion ac maent yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant tuag at eu dysgu.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion yn rhagorol. Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth lawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi cynhyrchu pamffled i annog a chynnal presenoldeb uchel ac wedi ei rannu'n llwyddiannus iawn ag ysgolion eraill y dalgylch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol

iawn ar bresenoldeb Ysgol Casblaidd ynghyd ag ysgolion eraill. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae ethos cynhwysol iawn i'w deimlo ymysg y disgyblion ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd. Mae bron bob disgybl yn cyfrannu'n gyson ac yn effeithiol i weithgareddau amrywiol yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan flaengar mewn gŵyl leol, gan helpu i drefnu gweithgareddau. Maent yn cyfrannu'n helaeth at gylchlythyr lleol 'Wolfwhistle' sy'n datblygu a chyfoethogi eu medrau llythrennedd yn dda yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae disgyblion hynaf yr ysgol wedi cyfrannu'n sylweddol at nifer o bolisïau'r ysgol, gan gynnwys y polisi marcio a'r polisi diogelwch ar y rhyngrwyd. O ganlyniad, mae llais disgyblion yn cael rôl lawn ym mholisïau a gwaith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau tymor byr yn fanwl, yn nodi amcanion dysgu'n glir ac yn cynnig gweithgareddau symbylus sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol. Serch hynny, nid oes gan yr ysgol gynlluniau hir dymor sy'n dangos yn ddigon clir fod yr holl medrau'n cael eu datblygu'n llawn. Mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith ond nid yw'r gweithgareddau bob amser yn dangos dilyniant a pharhad yn ddigon bwriadus. Nid oes cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn ar draws ystod o bynciau.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan. Enghraifft o hyn yw'r ymwelwyr a ddaw i'r ysgol ynghyd â nifer o ymweliadau oddi ar y safle fel cyrsiau preswyl yng nghanolfannau'r Urdd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang trwy waith thematig ar Batagonia a gwaith sy'n seiliedig ar lyfr 'If the world were a village'.

Mae'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff, er enghraifft trwy ailgylchu plastig a dillad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn gadarn.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio profiadau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae pwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol sy'n ennyn awydd y disgyblion i ddysgu. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth briodol i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi.

Mae cyflwyniadau bywiog yr athrawon yn ysgogi'r disgyblion yn dda. Mae athrawon yn holi'n effeithiol sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn llawn. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau'n cael eu gwahaniaethu'n dda i ymateb i anghenion y disgyblion. Er hynny, ar brydiau, mae gorgyfarwyddo gan athrawon. Mae hyn yn cyfyngu ar ddisgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl llawn yn eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r dull marcio. Yn gyffredinol, mae sylwadau'r athrawon yn adeiladol, ac yn rhoi arweiniad i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Er hynny, nid yw hyn wedi datblygu ar draws yr ystod lawn o bynciau.

Mae'r athrawon a'r staff yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu cyflawniad disgyblion. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth i unigolion yn ôl yr angen. Mae'r ysgol yn defnyddio system electronig yn briodol i olrhain cynnydd disgyblion ac i osod targedau gwelliant.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion gadw'n heini, trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol, drwy ddefnyddio systemau gwobrwyo fel seren yr wythnos, presenoldeb perffaith a Chymry cryf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymddygiad ac agwedd disgyblion at ddysgu.

Darperir amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog o fewn yr ysgol a'r gymuned sy'n datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Enghraifft o hyn yw ymweliadau ag addoldai lleol ynghyd â Gŵyl Casblaidd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweithredu'n llawn fel aelodau o'r gymuned.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol trwy wasanaethau rheolaidd. Mae hyn yn effeithio'n bositif ar les disgyblion. Gwneir defnydd priodol o wasanaethau arbenigol allanol fel y seicolegydd addysg ac asiantaethau cefnogi teulu. Mae hyn yn cyfoethogi lles disgyblion a theuluoedd yn dda.

Mae trefniadau ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus i adnabod a chynnal dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth effeithiol ar gyfer unigolion a grwpiau penodol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cynhaliaeth a mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae cynlluniau addysgol unigol o safon dda ac maent yn cael eu gwerthuso a'u diweddaru'n rheolaidd. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar sy'n annog safonau uchel o foesau ac ymddygiad da ymysg y disgyblion. Mae'r staff yn meithrin ethos gofalgar sy'n sicrhau caiff disgyblion fynediad cyfartal i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff yn sicrhau gofal a pharch rhwng disgyblion ac oedolion a rhwng disgyblion a'u cyfoedion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd presenoldeb ac yn eu cynnwys yn llawn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae gwaith y disgyblion yn datblygu gerddi'r ysgol wedi ennill gwobrau cenedlaethol. Mae hyn wedi magu balchder a chyfrifoldeb y disgyblion am eu cymuned leol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sy'n cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol. Mae arddangosfeydd symbylus a deniadol yn dathlu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn ennyn parch disgyblion at eu gwaith. Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau TGCh sy'n datblygu medrau digidol y dysgwyr yn briodol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac mae'r cyngor ysgol yn weithredol yn y gwaith o gadw tir yr ysgol a'r gymuned yn lân a thaclus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Trwy'r defnydd cyson effeithiol o'r datganiad 'Dyro dy law i mi, ac mi awn i ben y mynydd', mae'r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn sicrhau cymuned ddysgu gynhwysol, lle mae blaenoriaeth uchel i safonau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth a staff yn gweithio'n dda fel tîm. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad perthnasol ac maent yn ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol. Maent yn adolygu eu pynciau yn rheolaidd ac maent yn datblygu'u medrau monitro ac arsylwi yn briodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff addysgu a staff ategol sydd yn bodloni gofynion statudol. Mae'r ysgol yn bodloni llawer o flaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws cryf ar gynnal presenoldeb uchel ddisgyblion. Mae'r gwaith ar ddatblygu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n addas.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau a sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae llawer o lywodraethwyr yn arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau ac yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth. Maent yn defnyddio'r

wybodaeth yn llwyddiannus er mwyn herio'r ysgol ac i ddatblygu eu rôl fel ffrind beirniadol yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu addas. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i fonitro safon yr addysgu a'r dysgu trwy arsylwi ar wersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae adroddiadau sy'n deillio o'r broses yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn addas. Er hynny, nid yw arweinwyr yn ymweld â thargedau gwella yn ddigon rheolaidd er mwyn mesur cynnydd yn llawn. Mae'r ysgol yn canfod barn rhieni a llywodraethwyr yn effeithiol yn y broses hunanarfarnu. Un o gryfderau'r broses yw'r ffordd mae'r ysgol yn canfod barn disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, trwy waith y cyngor ysgol a holiaduron perthnasol, mae'r ysgol wedi addasu'r ffordd o ymateb i waith disgyblion.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad. Mae'r adroddiad, er braidd yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac yn gyffredinol yn nodi'r meysydd ar gyfer gwelliant yn addas.

Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae gan y cynllun datblygu ysgol nifer rhesymol o dargedau gwella ynghyd â chyfrifoldebau, costau a meini prawf llwyddiant priodol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu'r targedau yn dda yn rheolaidd. Er hynny, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon meintiol bob tro er mwyn mesur y cynnydd yn ddigon penodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref iawn gyda rhieni. Mae'r gymdeithas rhieni a ffrindiau'r ysgol yn gefnogol iawn. Mae'n trefnu gweithgareddau llwyddiannus i godi arian at brynu adnoddau i'r ysgol, er enghraifft, offer TGCh, ac wrth addasu'r adeilad er mwyn rhoi mynediad i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i'r ardal allanol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd. Mae cyfarfodydd cymedroli a safoni llwyddiannus yn sicrhau cywirdeb wrth lefelu gwaith disgyblion a chysondeb ar draws y clwstwr. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd o fewn ysgolion lleol a'r ysgol uwchradd er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi defnyddio arbenigedd adran ddrama yr ysgol uwchradd i greu perfformiad o 'A Midsummer Night's Dream'.

Gwna'r ysgol ddefnydd gwerthfawr o'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn chwarae rhan annatod yn y gymuned. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r ffordd arbennig y mae'r disgyblion wedi gweithio gyda'r gymuned er mwyn ennill gwobrau 'Cymru yn ei blodau' a 'Prydain yn ei blodau'. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymdeimlad o bwysigrwydd eu hardal leol a balchder tuag ati.

Mae systemau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd o safon dda. Mae disgyblion yn ymweld â'r ysgol uwchradd o oedran ifanc ac mae disgyblion hŷn yn

derbyn rhaglen fuddiol o weithgareddau trosglwyddo.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig sy'n darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb bron bob disgybl yn dda.  Mae'r pennaeth wedi lleoli staff yn effeithiol wrth ystyried eu cryfderau.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd medrus o'r cymorthyddion sydd yn gwneud cyfraniad addas at brofiadau dysgu disgyblion.  Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae staff yn defnyddio'r amser yn effeithiol i gynllunio'n bwrpasol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill.  Mae'r athrawon yn rhan o gymuned ddysgu fuddiol er mwyn datblygu safonau ysgrifennu Cymraeg.  O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion wedi gwella ar draws yr ysgol.  Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigwyr yn effeithiol er mwyn atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion.  Enghreifftiau da o hyn yw'r defnydd o'r gwasanaeth gerdd ac arbenigwyr chwaraeon.

Mae'r pennaeth, ysgrifenyddes a'r is-bwyllgor cyllid yn monitro'r cyllid yn ofalus.  Mae'r ysgol yn defnyddio cyfraniadau arianol o'r gymuned leol yn effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth allanol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion ieuengaf yn cael mynediad llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r Grant Amddifadedd Disgyblion wrth sicrhau mynediad llawn i holl weithgareddau a gwibdeithiau'r ysgol.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o’r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon.  Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6682254 - Ysgol Gymunedol Casblaidd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 38 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 5 | 7 | 5 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 100.0 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 7 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 7 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 7 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 7 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 19 | 19 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 19 | 19 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 19 | 19 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 19 | 19 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 19 | 19 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 19 | 19 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 19 | 19 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 19 | 19 | 0 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 19 | 19 | 0 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 19 | 19 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 19 | 19 | 0 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 19 | 19 | 0 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 19 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 16 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 19 | 19 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 20 | 18<br>90% | 2<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Catrin James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Wendy Raymond | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.